Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

**Cylch Meithrin Y Fenni**
**Heol Dewi Sant**
**Y Fenni**
**Sir Fynwy**
**NP7 6HF**

**Dyddiad yr arolygiad: Gorffennaf 2017**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 06/09/2017**

## Cyd-destun

Mae Cylch Meithrin y Fenni yn gylch cyfrwng Cymraeg sydd wedi ei leoli mewn dwy ystafell ar dir Ysgol Gymraeg y Fenni, Y Fenni yn awdurdod lleol Mynwy. Mae'r plant sy'n mynychu'r cylch yn dod o dref Y Fenni, ledled y sir a siroedd cyfagos.

Mae'r lleoliad wedi ei gofrestru i dderbyn 26 o blant rhwng dwy i bedair oed ym mhob sesiwn. Mae 37 o blant ar hyn o bryd yn mynychu'r cylch ac mae 9 ohonynt yn cael eu hariannu. Mae'r cylch ar agor pum bore'r wythnos rhwng 9.00yb ac 11.30yb.

Mae llawer o'r plant yn dod o gartrefi lle siaredir Saesneg ar yr aelwyd ac ychydig o blant sy'n dod o gartrefi lle siaredir y Gymraeg. Nid oes plentyn yn y grŵp cyfredol ag anghenion ychwanegol ac ychydig iawn o blant sydd o gefndir ethnig lleiafrifol.

Mae'r arweinydd wedi bod yn ei swydd ers Hydref 2016 ac mae'n arwain pum aelod o staff cymwysedig. Arolygwyd y lleoliad gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ddiwethaf ym mis Mehefin 2015 a chan Estyn ym mis Mehefin 2012.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol y lleoliad | Digonol |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r lleoliad | Digonol |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad y lleoliad yn ddigonol oherwydd bod:

- mwyafrif y plant yn cymryd rhan yn frwdfrydig yn y profiadau a gynigir iddynt
- gan lawer o'r plant agwedd gadarnhaol tuag at ddysgu
- llawer o blant yn gallu cymhwyso eu medrau allweddol yn briodol yn yr ardaloedd dysgu ac yn adalw dysgu blaenorol yn llwyddiannus
- perthynas gadarnhaol a chefnogol yn bodoli rhwng yr holl ymarferwyr a'r plant
- y rhan fwyaf o'r plant yn gwrtais ac yn ymddwyn yn dda
- ymarferwr yn cynllunio ystod eang o weithgareddau diddorol sy'n diwallu gofynion y Cyfnod Sylfaen yn llwyddiannus
- ethos cynhwysol ac awyrgylch gynhaliol yn bodoli yn y lleoliad

Fodd bynnag:

- nid yw medrau llythrennedd llawer o'r plant, yn enwedig eu medrau llafar, wedi datblygu'n ddigonol ac ychydig iawn o blant sy'n defnyddio'r Gymraeg yn naturiol heb unrhyw anogaeth
- mae lleiafrif y plant yn aflonyddu yn ystod tasgau
- nid yw'r cyflwyniadau yn ddigon effeithiol i herio'r holl blant yn ystod y gweithgareddau ffocws
- nid yw'r addysgu yn herio'r plant i ddatblygu eu medrau Cymraeg yn ddigon effeithiol
- nid yw ymarferwyr yn defnyddio'r wybodaeth o asesiadau yn ddigon effeithiol i gynllunio'r camau nesaf yn y dysgu

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella y lleoliad yn ddigonol oherwydd bod:

- gweledigaeth gadarn gan yr arweinydd newydd yn seiliedig ar sicrhau bod plant yn cyflawni cystal ag y gallent mewn awyrgylch ofalgar, ac mae wedi rhannu hyn yn effeithiol
- staff yn gweithio'n agos fel tîm ac yn cydweithio'n bwrpasol i sicrhau profiadau ysgogol i'r plantswydd ddisgrifiadau yn glir ac mae'r holl ymarferwyr yn gweithredu'u rolau'n gydwybodol
- y pwyllgor rheoli yn gefnogol iawn ac yn gweithio'n frwd i sicrhau bod y lleoliad yn rhedeg yn dda o ddydd i ddydd
- gan y lleoliad drefniadau priodol ar gyfer adnabod ei cryfderau;
- cysylltiadau gwerthfawr yn bodoli rhwng y lleoliad â'r ysgol gynradd leol sy'n sicrhau trosglwyddo esmwyth rhwng y lleoliad a'r ysgol

- y lleoliad yn gwneud defnydd pwrpasol o gymorth allanol
- gan y lleoliad berthynas gref â rhieni
- arweinwyr yn sicrhau bod yr ymarferwyr yn arsylwi'r yn ddyddiol ac yn cadw cofnodion buddol ar ddatblygiad y plant

Fodd bynnag:

- nid oes digon o ffocws ar gynllunio'n strategol i godi safonau
- nid yw'r prosesau hunanarfarnu newydd wedi cael amser i wreiddio'n llawn i effeithio'n ddigon cadarn ar y ddarpariaeth a safonau plant
- gan nad yw'r lleoliad wedi adnabod yr holl feysydd pwysig sydd angen eu gwella, nid yw'r cynllunio ar gyfer gwelliant yn arwain at wella'r deilliannau na safonau lles y plant yn ddigon effeithiol
- nid yw'r arweinwyr wedi sicrhau bod pob un o argymhellion yr arolygiad blaenorol wedi eu cwrdd yn llawn
- nid yw'r ardal tu allan yn cael ei ddefnyddio'n ddigon effeithiol i godi safonau

## Argymhellion

A1 Codi safonau llythrennedd y plant, yn enwedig eu medrau llafar

A2 Gwella ansawdd yr addysgu er mwyn herio plant o bob gallu ac i sicrhau eu bod yn gwneud cynnydd priodol ar draws yr holl feysydd dysgu

A3 Defnyddio asesu yn fwy effeithiol i gynllunio camau nesaf yn y dysgu

A4 Cryfhau a gwreiddio gweithdrefnau hunanarfarnu er mwyn adnabod yr holl feysydd sydd angen gwelliant

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd Estyn yn monitro cynnydd y lleoliad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw’r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Yn gyffredinol, mae llawer o’r plant yn gwneud cynnydd addas o’u mannau cychwyn ar draws y meysydd dysgu. Mae medrau personol a chymdeithasol llawer o’r plant yn datblygu'n dda. Mae llawer o blant yn cymhwyso eu medrau yn yr ardaloedd dysgu yn briodol ac maent yn adalw dysgu blaenorol yn llwyddiannus. Mae mwyafrif y plant yn datblygu medrau meddwl da, er enghraifft wrth ddewis pa ffrwyth i fwyta amser byrbryd.

Mae mwyafrif y plant yn datblygu eu medrau llythrennedd yn gymwys. Maent yn mwynhau gwrando ar stori ac yn ymuno ag ymadroddion sy’n cael eu hailadrodd yn briodol. Mae gan ran fwyaf y plant adnabyddiaeth addas o ganeuon syml. Mae llawer o blant yn defnyddio un gair neu gymal o ddau air wrth siarad ag oedolion yn y Gymraeg. Mae plant hŷn, a rhai mwy abl, yn gallu ffurfio brawddegau syml wrth ofyn cwestiwn ond mae eu geirfa ac amrediad eu patrymau brawddegau yn gyfyngedig. Fodd bynnag, ychydig yn unig sy’n ymateb yn ddigon hyderus i gyfarwyddiadau newydd ac mae llawer yn disgwyl am gyfarwyddiadau Saesneg cyn ymateb. Mae mwyafrif y plant yn dal llyfrau yn briodol, yn troi tudalennau yn gywir ac yn edrych ar luniau â diddordeb. Mae’r lleiafrif yn dewis edrych ar lyfrau yn annibynnol tra byddant yn yr ardal awyr agored. Mae mwyafrif y plant yn gallu adnabod eu henwau, gwneud marciau yn llwyddiannus a gall ychydig ysgrifennu eu henwau.

Mae llawer o blant yn datblygu medrau rhifedd cynnar yn briodol. Maent yn cyfrif i ddeg ar gof, gyda phlant mwy abl yn cyfrif at ugain. Mae ychydig iawn o blant yn adnabod rhifau at dri yn addas ac yn eu gosod mewn trefn yn gywir. Mae tua hanner yn defnyddio iaith fathemategol yn briodol wrth chwarae yn yr ardal tu allan, er enghraifft wrth iddynt ddisgrifio blwch neu declyn sy’n llawn neu’n wag wrth arllwys dŵr neu wrth lenwi potyn â phridd. Maent yn esbonio’n llwyddiannus os yw gwrthrychau’n ‘fawr’, yn ‘ganolig’ neu’n ‘fach’.

Mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) llawer o’r plant yn dda. Mae llawer yn defnyddio llechen electronig yn llwyddiannus i greu llun neu i dynnu llun yn annibynnol. Maent yn dynwared oedolion ar y ffôn ac yn gallu rheoli a rhoi gorchymyn i degan rhaglenadwy yn llwyddiannus.

Mae medrau creadigol llawer o blant yn dda ac mae bron pob un yn dyfalbarhau ac yn mwynhau datblygu eu medrau tu mewn ac yn yr awyr agored, er enghraifft wrth wneud cacen mwd. Mae datblygiad corfforol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda a gall bron bob un ddal pensil yn hyderus wrth dynnu llun yn effeithiol. Mae bron bob plentyn yn gallu rhedeg mewn llinell syth a neidio â dwy droed. Mae rhan fwyaf o’r plant yn gallu adeiladu tŵr â chwe blocyn o bren yn llwyddiannus.

**Lles: Da**

Mae bron pob un o’r plant yn mwynhau dod i’r lleoliad ac yn gadael eu rhieni yn ddidrafferth ac yn ymgartrefu’n dda. Mae bron pob plentyn yn ymgymryd â chyfrifoldebau yn gydwybodol wrth hunan gofrestru ar gychwyn y dydd a dosbarthu bwyd a diod i’w cyfoedion. Mae’r rhan fwyaf yn cymryd rhan yn y gweithgareddau a osodir ar eu cyfer yn syth.

Mae bron pob plentyn yn gallu gweithio’n dda yn annibynnol, er enghraifft wrth osod offer mathemategol at ei gilydd i gyfateb rhif neu wrth chwarae rôl yn yr ardal greadigol. Mae bron pob plentyn yn gallu cydweithredu’n dda â'i gilydd, er enghraifft wrth chwarae yn y gegin fwd. Mae llawer o’r plant yn canolbwyntio yn gynyddol am gyfnodau priodol yn ystod gweithgareddau ffocws. Fodd bynnag, mae’r lleiafrif yn aflonyddu yn ystod tasgau yn yr ardaloedd dysgu.

Mae bron pob plentyn yn ymddwyn yn gwrtais ac yn uniaethu â phlant eraill, oedolion ac ymwelwyr yn dda. Maent wedi dysgu pwysigrwydd dangos cwrteisi a bod yn garedig i’w ffrindiau. Mae llawer o’r plant yn gwneud penderfyniadau a dewisiadau synhwyrol wrth ddewis yr hyn yr hoffent ei wneud yn ystod amser chwarae rhydd.

Mae rhan fwyaf o’r plant wedi dysgu tacluso’n gydwybodol ac yn cymryd gofal da o adnoddau. Maent yn datblygu ymwybyddiaeth gadarn o’r angen am hylendid trwy olchi dwylo cyn amser byrbryd.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw’r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae pob ymarferwr yn cynllunio ystod eang o weithgareddau diddorol sy’n diwallu gofynion y Cyfnod Sylfaen yn llwyddiannus. Yn gyffredinol, mae’r ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd creadigol i ddatblygu medrau’r plant ar draws y meysydd dysgu yn briodol, er enghraifft wrth roi cyfleoedd i’r plant gyfrif deinosoriaid lliwgar yn yr ardal byd bach. Mae’r ymarferwyr yn cyfarfod bob wythnos i gyd-gynllunio er mwyn darparu gweithgareddau ysgogol i’r plant. Mae gan y gweithgareddau hyn bwyslais cadarn ar ddysgu drwy brofiadau uniongyrchol tu fewn ac yn yr awyr agored. Maent yn sicrhau cydbwysedd priodol rhwng gweithgareddau y mae plant yn eu dewis a gweithgareddau sy’n cael eu harwain gan oedolion. Mae’r ymarferwyr yn dechrau ysgogi’r plant i gynnig syniadau ar gyfer gweithgareddau’r tymor, er enghraifft ar beth yr hoffent ei wneud yn yr ardal celf.

Yn gyffredinol, mae’r cynllunio yn galluogi'r mwyafrif o blant i wneud cynnydd cadarn yn eu medrau llythrennedd a rhifedd ar draws y meysydd dysgu. Fodd bynnag, nid oes digon o ffocws ar ddatblygu medrau llafar plant. Mae hyn yn cyfyngu eu gallu plant i gyfathrebu yn y Gymraeg. Mae’r cynllunio ar gyfer datblygu medrau TGCh y plant yn dda. Mae ymarferwyr yn cynllunio cyfleodd bwriadus i ddatblygu’r medrau hyn yn systematig ar draws y meysydd dysgu. Mae’r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i’r plant ddatblygu eu medrau corfforol a chreadigol, gan gynnwys printio ag afalau i greu patrwm hafal a symud fel pili-pala yn yr awyr agored.

Caiff y plant gyfleoedd cyson i i ddatblygu eu dealltwriaeth o draddodiadau, dathliadau a diwylliant Cymru. Mae ymarferwyr yn trefnu cyfleoedd buddiol i’r plant i

ddathlu Dydd Gŵyl Dewi ac i ddysgu am draddodiadau Cymreig. Enghraifft effeithiol o hyn yw rhoi cyfleoedd i'r plant wisgo dillad traddodiadol ac i goginio a bwyta cawl cennin.

Mae'r ymarferwyr yn sicrhau cyfleoedd buddiol i bob plentyn ailgylchu a thyfu llysiau. Mae cysylltiad da â'r gymuned a daw ymwelwyr, er enghraifft dynion tân a garddwyr, i'r lleoliad. Drwy hyn, mae'r plant yn dechrau datblygu dealltwriaeth bwrpasol o rôl gwahanol bobl yn y gymuned.

**Addysgu: Digonol**

Mae gan yr holl ymarferwyr ymwybyddiaeth gadarn o egwyddorion y Cyfnod Sylfaen a datblygiad plant. Maent yn cydweithio'n llwyddiannus er mwyn sicrhau darpariaeth ddiddorol ac yn gwneud defnydd priodol o ystod o arddulliau dysgu. Mae'r ymarferwyr yn synhwyrus o anghenion y plant ac yn eu hannog i gymryd rhan yn yr holl weithgareddau yn rheolaidd. Mae llawer o ymarferwyr yn holi'r plant yn addas er mwyn datblygu eu medrau meddwl, rhifedd a TGCh. Mae gan yr ymarferwyr ddisgwyliadau uchel ar gyfer y mwyafrif o'r plant ac maent yn herio'r plant hyn yn gyson mewn tasgau ffocws. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn herio'r plant mwyaf galluog i berfformio ar eu gorau yn ddigon rheolaidd.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio gweithgareddau yn fanwl. Fodd bynnag, nid oes digon o ffocws ar amcan y wers yn y cyflwyniadau. Ar adegau, mae gor-arweiniad gan oedolion yn cyfyngu ar allu ychydig o'r plant i weithio'n annibynnol. Mae'r ymarferwyr yn canmol plant yn briodol pan mae ymddygiad yn dda, ac yn defnyddio strategaethau addas i dynnu sylw plant wrth aflonyddu. Mae ansawdd Cymraeg y staff yn amrywiol ac nid ydynt yn modelu'r iaith yn ddigon cyson nac yn rhoi cyfleoedd digonol i ddatblygu medrau'r llafar y plant. O ganlyniad, nid yw safonau llafar y plant yn datblygu'n ddigon cadarn.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio amgylchedd diddorol a chwaethus yn yr ystafelloedd ac yn gwneud defnydd effeithiol o adnoddau i lywio'r dysgu. Fodd bynnag, nid yw'r sesiynau yn yr awyr agored bob tro yn ddigon strwythuredig i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a chorfforol y plant yn gyson.

Mae gan y lleoliad drefniadau priodol ar gyfer asesu cynnydd plant ac mae'r ymarferwyr wedi dechrau defnyddio proffil y Cyfnod Sylfaen i asesu man cychwyn y plant yn addas. Mae'r ymarferwyr yn arsylwi yn ddyddiol ac yn cadw cofnodion buddiol ar ddatblygiad y plant. Fodd bynnag, nid ydynt yn gwneud defnydd digon effeithiol o'r wybodaeth hon bob tro i gynllunio'r camau nesaf er mwyn sicrhau digon o her yn y dysgu ar gyfer yr holl blant. Mae ymgynghoriadau blynyddol â rhieni yn rhoi gwybodaeth gytbwys iddynt am gynnydd eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r lleoliad yn darparu cyfleoedd cyfoethog i hyrwyddo iechyd a lles y plant. Mae cynllun iechyd cyn-ysgol a chynllun gofal dannedd wedi gwreiddio ac mae dealltwriaeth y plant o bwysigrwydd hyn yn datblygu'n gadarn. Mae'r lleoliad yn hybu pwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach yn llwyddiannus ac mae llawer o'r plant yn dechrau deall pwysigrwydd bwyta ffrwythau a llysiau a chadw'n heini.

Mae cyfleoedd pwrpasol i hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant. Drwy hyn, mae llawer o'r plant yn datblygu gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch yn dda. Mae'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd pwrpasol yn ddyddiol i blant i drafod teimladau a dweud diolch. Mae hyn yn gymorth i'r plant eistedd i wrando ar oedolion, ymarfer golchi eu dwylo a dweud diolch am eu bwyd. Mae'r plant hŷn yn cael cyfle cyson i helpu eraill a thrwy hyn maent yn dechrau derbyn cyfrifoldeb yn fuddiol.

Mae ymarferwyr yn sicrhau cyfleoedd cyson i blant ailgylchu papur a cherdyn yn y lleoliad. Mae hyn yn dechrau datblygu eu dealltwriaeth o gynaliadwyedd yn effeithiol.

Ar y cyfan, mae ymarferwyr yn annog y plant yn llwyddiannus i ddatblygu ymddygiad positif at ei dysgu, ac at eraill, trwy wobrwyo â sticeri, seren yr wythnos, amser cylch a chanmoliaeth gadarnhaol. Mae hyn yn cyfrannu'n weddol lwyddiannus tuag at geisio dileu aflonyddwch neu ymddygiad annerbyniol. O ganlyniad, mae'r plant yn hapus yng nghwmni oedolion ac yn gyfforddus wrth ofyn am gymorth.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae prosesau cadarn gan y lleoliad i ymateb i anghenion plant ag anghenion dysgu ychwanegol ac mae'r staff yn adnabod anghenion ychwanegol plant yn dda. Mae'r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol yn targedu a monitro cynnydd plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol, pan fydd angen. Mae'r lleoliad yn gweithio'n agos â'r ysgol gynradd ac asiantaethau allanol i sicrhau bod y gweithdrefnau priodol yn cael eu gweithredu'n effeithiol.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae awyrgylch gofalgar a chynhwysol yn bodoli yn y lleoliad. Mae pob plentyn yn cael mynediad cyfartal i'r holl adnoddau a'r meysydd dysgu. Mae holl staff yn cydweithio'n dda fel tîm i greu awyrgylch hapus sy'n parchu llais y plentyn. Mae plant yn ymgartrefu'n dda yn y lleoliad bob dydd ac mae gan yr ymarferwyr adnabyddiaeth dda o'r plant ac maent yn eu parchu.

Mae'r lleoliad yn rhoi pwyslais ar gydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth. Maent yn gwneud hyn yn llwyddiannus trwy ddathlu'r Blwyddyn Newydd Tseiniaidd, Sul y Mamau a Diwali, ac yn datblygu dealltwriaeth y plant o draddodiadau gwahanol yn llwyddiannus.

Mae'r ymarferwyr yn darparu amgylchedd diddorol yn y lleoliad. Mae digon o gyfleoedd i arddangos gwaith plant a'i ganmol ac mae'r ymarferwyr yn newid yr arddangosfeydd yn rheolaidd. Mae'r awyrgylch ysgogol tu mewn a thu allan, gydag amrywiaeth o adnoddau i sbarduno'r dysgu yn llwyddiannus. Mae gan y lleoliad gyflenwad pwrpasol o adnoddau da sy'n cael eu defnyddio i fodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen yn dda ac maent o fewn cyrraedd yr holl blant.

Mae ansawdd yr adeilad yn addas ac yn cael ei gynnal yn ddiogel, ac mae'r lleoliad wedi ei ddodrefnu'n dda.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Digonol |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae'r arweinydd, sydd yn gymharol newydd i'w rôl, yn datblygu ei medrau rheoli'n briodol gan weithio'n agos gydag athrawes gyswllt yr awdurdod lleol a'r pwyllgor rheoli i osod cyfeiriad strategol i'r lleoliad. Mae ganddi weledigaeth gadarn yn seiliedig ar sicrhau bod plant yn cyflawni cystal ag y gallent mewn awyrgylch ofalgar. Mae wedi rhannu hyn yn effeithiol gyda'r staff, rhieni a'r pwyllgor rheoli. Mae'r staff yn gweithio'n agos fel tîm ac yn cydweithio'n bwrpasol i sicrhau profiadau ysgogol i'r plant.

Mae swydd ddisgrifiadau yn glir ac mae'r holl ymarferwyr yn gweithredu'u rolau'n gydwybodol, er enghraifft wrth sicrhau bod y safle yn ddiogel cyn i'r plant gyrraedd yn y boreau. Mae'r staff yn cwrdd yn rheolaidd ac yn cyfrannu'n briodol at gynllunio ac asesu cyraeddiadau plant. Fodd bynnag, nid oes digon o ffocws ar gynllunio'n strategol i godi safonau ac nid yw arweinwyr yn sicrhau bod yr addysgu yn arwain yn ddigon pwrpasol at welliannau mewn safonau.

Mae trefniadau addas ar waith ar gyfer rheoli perfformiad. Mae hyn yn cefnogi datblygiad proffesiynol ymarferwyr yn addas. Mae'r lleoliad yn bodloni blaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn briodol, gan gynnwys datblygu'r ardal y tu allan ac annog bwyta ac yfed yn iach.

Mae'r pwyllgor rheoli yn gefnogol iawn i'r lleoliad. Maent yn gweithio'n frwd i sicrhau bod y lleoliad yn rhedeg yn dda o ddydd i ddydd. Maent yn sicrhau adnoddau o safon uchel ac yn paratoi'n drylwyr ar gyfer adleoli'r lleoliad i safle newydd. Mae aelodau yn ymweld â'r lleoliad yn rheolaidd ac yn datblygu ymwybyddiaeth addas o ansawdd y ddarpariaeth a safonau.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae gan y lleoliad drefniadau priodol ar gyfer adnabod cryfderau ac ychydig o feysydd sydd angen eu gwella. Mae'r prosesau hunanarfarnu presennol yn gymharol newydd ac nid yw'r gweithdrefnau newydd wedi cael amser i wreiddio'n llawn i effeithio'n ddigon cadarn ar y ddarpariaeth a safonau plant. Yn ddiweddar, mae'r arweinydd wedi creu amserlen monitro ddefnyddiol er mwyn cryfhau'r prosesau hunanarfarnu. Mae hyn yn sicrhau cyfleoedd buddiol i werthuso'r ddarpariaeth, craffu ar waith plant ac asesiadau staff ac i arsylwi ar sesiynau. Mae'r adroddiadau sy'n deillio o'r monitro yn gosod targedau synhwyrol ar gyfer gwelliant. Er eu bod yn eu dyddiau cynnar, maent yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar ychydig o agweddau o'r ddarpariaeth, er enghraifft y defnydd o TGCh yn ystod gweithgareddau ffocws. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw'r trefniadau yn adnabod agweddau pwysig ar gyfer gwelliant yn ddigon effeithiol, er enghraifft gallu'r plant i ddefnyddio'r Gymraeg wrth weithio'n annibynnol.

Mae'r trefniadau hunanarfarnu yn dechrau bwydo'r adroddiad hunanarfarnu'n briodol. Yn gyffredinol, mae'r adroddiad yn arfarnol ac yn adnabod cryfderau ac ychydig o feysydd ar gyfer gwelliant yn addas. Mae cyswllt clir rhwng canfyddiadau'r lleoliad a'r

cynllun datblygu. Mae'r cynllun datblygu yn gosod targedau addas ar gyfer gwelliant, gan nodi cyfrifoldebau gweithredu, a'r drefn i fonitro a gwerthuso'r cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau. Fodd bynnag, nid yw'r amserlen ar gyfer gweithredu a monitro'r blaenoriaethau yn ddigon penodol, ac nid yw cost y gweithredu bob amser yn cael sylw digon manwl. Gan nad yw'r lleoliad wedi adnabod yr holl feysydd pwysig sydd angen eu gwella, nid yw'r cynllunio ar gyfer gwelliant yn arwain at wella'r deilliannau na safonau lles y plant yn ddigon effeithiol. Nid yw'r arweinwyr wedi sicrhau bod pob un o argymhellion yr arolygiad blaenorol wedi eu bodloni'n llawn.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r lleoliad wedi llwyddo i ddatblygu partneriaethau gwerthfawr sy'n cyfrannu'n llwyddiannus at wella safonau a lles y plant.

Mae gan y lleoliad berthynas gref â rhieni. Mae rhieni'n derbyn gwybodaeth fuddiol, reolaidd ynglŷn â datblygiad eu plant drwy nosweithiau agored, trafodaethau anffurfiol ac adroddiadau ysgrifenedig. Mae'r lleoliad yn hysbysebu rhieni ynglŷn â gwaith y tymor a digwyddiadau drwy gylchlythyron rheolaidd. Mae'r gwaith diweddar ar greu pecynnau cartref-lleoliad yn galluogi rhieni i atgyfnerthu dysgu eu plant gartref yn llwyddiannus. Yn ddiweddar, mae'r lleoliadau wedi cryfhau'r cyswllt â rhieni yn effeithiol gan ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol. Defnyddiant arbenigedd rhieni yn effeithiol er mwyn cyfoethogi profiadau'r plant, er enghraifft drwy'r diwrnod adeiladu lloches.

Mae cysylltiadau gwerthfawr yn bodoli rhwng y lleoliad â'r ysgol gynradd leol, sydd ar yr un campws. Mae hyn yn sicrhau trosglwyddo esmwyth rhwng y lleoliad a'r ysgol. Mae'r lleoliad yn gweithio'n agos gyda staff yr ysgol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar hyder a rhuglder iaith ymarferwyr yn y lleoliad.

Mae gan y lleoliad gysylltiadau addas â'r gymuned leol. Mae aelodau o'r gymuned yn ymweld â'r lleoliad yn aml, er enghraifft i ddysgu'r plant sut i fod yn ddiogel wrth yr heol. Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd priodol o'r parc lleol yn ogystal â chaeau cyfagos. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad corfforol y rhan fwyaf o'r plant.

Mae'r lleoliad yn cydweithio'n effeithiol ag asiantaethau allanol fel yr awdurdod lleol a Dechrau'n Deg. Mae'r berthynas gadarnhaol hon yn atgyfnerthu gwaith y lleoliad yn llwyddiannus, er enghraifft wrth ddatblygu gweithdrefnau hunanarfarnu.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd da o staff ac adnoddau i gefnogi'r addysgu a dysgu.

Mae gan y lleoliad ystod eang o adnoddau o safon uchel i hyrwyddo amcanion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen yn briodol. Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd effeithiol o'r adnoddau i gynllunio profiadau ysgogol ar gyfer y plant tu fewn ac yn yr awyr agored. Mae'r adnoddau o fewn cyrraedd y plant ac yn hybu eu hannibyniaeth yn effeithiol.

Drwy weithdrefnau rheoli perfformiad, mae pob aelod o staff yn manteisio'n briodol ar hyfforddiant mewn nifer o feysydd perthnasol, er enghraifft y defnydd o'r ardal tu allan a hylendid bwyd. Mae hyn yn datblygu eu dealltwriaeth a'u gwybodaeth o'r meysydd hyn yn addas. Ategir hyn yn ddiweddar drwy ymweliadau â lleoliadau eraill i arsylwi ar arfer dda.

Mae'r pwyllgor yn rheoli ac yn dyrannu cyllid y lleoliad yn ofalus i sicrhau bod gan y lleoliad ddigon o staff priodol ac adnoddau o ansawdd uchel. Mae staff y lleoliad a'r pwyllgor yn weithredol iawn yn trefnu gweithgareddau i godi arian tuag at wella'r ddarpariaeth. Maent wedi cynllunio'n graff ar gyfer adleoli'r lleoliad i safle newydd yn y flwyddyn academaidd newydd.

O ystyried deilliannau'r plant yn ogystal ag ansawdd yr addysgu, mae'r lleoliad yn darparu gwerth digonol am arian.

# Atodiad 1

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd yn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the setting. | 21 | 15<br>71% | 5<br>24% | 1<br>5% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n fodlon â'r lleoliad yn gyffredinol. |
| | | 79% | 21% | 0% | 0% | | |
| My child likes this setting. | 21 | 18<br>86% | 3<br>14% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r lleoliad hwn. |
| | | 84% | 16% | 0% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the setting. | 21 | 16<br>76% | 5<br>24% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn y lleoliad. |
| | | 86% | 14% | 0% | 0% | | |
| My child is making good progress at the setting. | 21 | 17<br>81% | 4<br>19% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn y lleoliad. |
| | | 81% | 19% | 0% | 0% | | |
| Children behave well in the setting. | 21 | 13<br>62% | 7<br>33% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae plant yn ymddwyn yn dda yn y lleoliad. |
| | | 71% | 28% | 1% | 0% | | |
| Teaching is good. | 21 | 14<br>67% | 5<br>24% | 1<br>5% | 0<br>0% | 1 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 80% | 19% | 0% | 0% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 21 | 18<br>86% | 3<br>14% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 83% | 16% | 0% | 0% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 21 | 17<br>81% | 4<br>19% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 76% | 24% | 0% | 0% | | |
| My child is safe at the setting. | 21 | 17<br>81% | 4<br>19% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn y lleoliad. |
| | | 84% | 15% | 0% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs. | 21 | 9<br>43% | 4<br>19% | 0<br>0% | 0<br>0% | 8 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 72% | 27% | 1% | 0% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 21 | 11<br>52% | 9<br>43% | 1<br>5% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 63% | 31% | 5% | 1% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the setting with questions, suggestions or a problem. | 21 | 18<br>86% | 3<br>14% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n teimlo'n gysurus ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r lleoliad, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 80% | 19% | 1% | 0% | | |
| I understand the setting's procedure for dealing with complaints. | 21 | 11<br>52% | 6<br>29% | 1<br>5% | 0<br>0% | 3 | Rwy'n deall trefn y lleoliad ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 65% | 32% | 3% | 1% | | |
| My child is well prepared for moving on to school. | 21 | 17<br>81% | 3<br>14% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol. |
| | | 73% | 26% | 1% | 0% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 21 | 9<br>43% | 9<br>43% | 3<br>14% | 0<br>0% | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 63% | 33% | 4% | 1% | | |
| The setting is well run. | 21 | 16<br>76% | 5<br>24% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r lleoliad yn cael ei redeg yn dda. |
| | | 81% | 18% | 1% | 0% | | |

## Atodiad 2

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Olwen Green | Arolygydd Cofnodol |
| Jonathan Cooper | Arolygydd Tîm |

### Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o’r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae’r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy’n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy’n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy’n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae’r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a’r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy’n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw’n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu’r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae’r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu’r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o’r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae’r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi’r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru’r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |